# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 30 Tachwedd 2023

Amser: 09.30 - 14.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13541

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Paul Davies AS (Cadeirydd)<br>Luke Fletcher AS<br>Vikki Howells AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Mike Hedges AS (yn lle Buffy Williams AS) |
| Tystion: | Harriet Barnes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Charlotte Brumpton-Childs, GMB<br>Professor Pete Burnap, Wales Cyber Innovation Hub<br>Dean Cook, Innovate UK<br>Lewis Dean, Rhwydwaith Arloesi Cymru<br>Alasdair McDiarmid, Community Union<br>Peter Hughes, Unite Cymru<br>Yr Athro Justin Lewis, Media Cymru<br>Dan Shah, UK Research and Innovation |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Andy Silcox, Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru<br>Professor Roger Whitaker, Prifysgolion Cymru<br>Amanda Wilkinson, Director, Universities Wales, Prifysgolion Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Lara Date, Clerc<br>Evan Jones, Dirprwy Glerc<br>Ceri Thomas, Swyddog Cymorth y Pwyllgor<br>Sara Moran, Ymchwilydd<br>Lucy Morgan, Ymchwilydd<br>Gareth Thomas, Ymchwilydd |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Buffy Williams AS a Hefin David AS. Roedd Mike Hedges AS yn bresennol fel dirprwy ar ran Buffy Williams AS. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

2.1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 a Chostau Byw

2.2 Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023

2.3 Ymatebion i adroddiad y Pwyllgor: Cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE

2.4 Pwysau costau byw a'r Warant i Bobl Ifanc

2.5 Protocol i Ddiwygio Cytundeb Marrakesh sy'n Sefydlu Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gymorthdaliadau Pysgodfeydd

2.6 Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

2.7 Cynllun Cynefin Cymru

2.8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

2.9 Cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach

2.10 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023

2.11 Y Bil Masnach (Cytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel)

## 3 Ymchwiliad: Ymchwil a Datblygu: Cyrff ariannu

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y panel ar ymchwil a datblygu.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y panel gyda chwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn.

## 4 Ymchwiliad: Ymchwil a Datblygu: Addysg uwch

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y panel ar ymchwil a datblygu.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y panel gyda chwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn.

4.3 Nododd Prifysgolion Cymru eu bod wedi gwneud rhywfaint o waith ar effaith economaidd a oedd yn edrych ar draws holl ranbarthau Cymru i lawr i'r lefel

isranbarthol. Roedd y gwaith hwn yn dangos bod prifysgolion yn cael effaith hyd yn oed os nad ydynt wedi'u lleoli yn yr ardal dan sylw, a chytunwyd i ysgrifennu at y Pwyllgor i roi rhagor o fanylion am y gwaith.

## 5 Ymchwiliad: Ymchwil a Datblygu: Busnes

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y panel ar ymchwil a datblygu.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y panel gyda chwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn.

## 6 Dyfodol Dur yng Nghymru: Undebau Llafur

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y panel ar ddyfodol dur yng Nghymru.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac ar gyfer eitemau 1, 2 a 3 o'r cyfarfod ar 13 Rhagfyr 2023

7.1 Derbyniwyd y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac ar gyfer eitemau 1, 2 a 3 o'r cyfarfod ar 13 Rhagfyr 2023.

## 8 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod y cyfarfod

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.